Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru: nodyn gan y Cadeirydd (Mehefin 2023)

Y diweddaraf am ddiwydiant bwyd a diod Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 26 Mehefin 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 26 Mehefin 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-y-cadeirydd-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Wrth inni nesáu at hanner ffordd 2023 mae'n amser da i fyfyrio.

Wrth siarad â Busnesau Bwyd a Diod, rwy'n clywed am arloesi a thwf cyffrous ac ar yr un pryd rwy'n dysgu am straen a rhwystredigaeth a achosir gan y byd yn profi lefel o aflonyddwch a risg busnes na welwyd mewn cenedlaethau. Y gwir amdani yw bod rhai cwmnïau'n rhewi ac yn methu, tra bod eraill yn arloesi, yn datblygu, a hyd yn oed yn ffynnu. Yn fy marn i, y gwahaniaeth yw cydnerthedd busnes.

Yn y bôn, cydnerthedd busnes yw gallu sefydliad i addasu'n gyflym i aflonyddwch wrth barhau i gynnal gweithrediadau busnes a diogelu pobl, asedau ac ecwiti brand cyffredinol. Y gallu i amsugno straen, adfer ymarferoldeb critigol, a ffynnu mewn amgylchiadau newidiol. Yn fyr, mae'n sicrhau bod sefydliadau yn paratoi ar gyfer unrhyw beth a dyna pam rwy'n credu bod Cydnerthedd Busnes mor bwysig i fusnesau bwyd a diod Cymru.

Mae llawer o agweddau ar gydnerthedd busnes a llawer o gyngor ar gael, ond hoffwn dynnu sylw at ddwy agwedd i'w hystyried.

Yn gyntaf, agwedd bwysig ar gydnerthedd busnes yw buddsoddi mewn arloesi ac ymchwil a datblygu gyda'r pwrpas penodol o wella twf ac effeithlonrwydd a lleihau gwastraff sy'n helpu busnesau i gystadlu ac aros yn gystadleuol. Rwy'n llwyr werthfawrogi bod yr amgylchedd presennol yn anodd gyda chost cyllid yn codi'n rheolaidd, felly mae amseriad y buddsoddiad hwn yn amlwg yn hollbwysig. Roeddwn i eisiau tynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth y DU yn cynnig cymorth ar gyfer Credydau Treth Ymchwil a Datblygu **Hawlio rhyddhad treth Ymchwil a Datblygu (R&D) - GOV.UK (www.gov.uk)**. Yn ogystal, mae gan **Gymdeithas y Technegwyr Trethiant** hefyd ganllaw ysgrifenedig da ar ryddhad Ymchwil a Datblygu ar gyfer cwmnïau bach a chanolig.

Dewis arall yw ystyried Grantiau Clyfar y DU lle gall sefydliadau cofrestredig y DU wneud cais am gyllid ar gyfer gwaith Ymchwil a Datblygu arloesol sy'n flaenllaw ac sy'n fasnachol hyfyw a all effeithio'n sylweddol ar economi'r DU. Er

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-y-cadeirydd-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

bod y cylch cyllido presennol newydd ddod i ben, rwy'n fwy na sicr y bydd cyllid ar gael yn y dyfodol gan y fenter hon sy'n cael ei darparu gan **Innovate UK** (Saesneg yn unig).

Rwy'n credu'n gryf bod cynllunio i greu busnesau cydnerth yn hanfodol. Fodd bynnag, i rai busnesau, gall fod yn rhy hwyr. Mae’n peri gofid bod nifer uchel o fusnesau yn cael trafferth, a hynny drwy gyfuniad o gostau cyfnewidiol a chynyddol, problemau yn ymwneud â llafur, heriau'r gadwyn gyflenwi a chost dyled gwasanaeth. Mae'n arbennig o rwystredig clywed am fusnesau da ac fel arfer hyfyw sydd wedi buddsoddi mewn arloesi ac effeithlonrwydd yn ddiweddar ond sydd bellach yn ei chael hi'n anodd ymdopi â’r ddyled y maent wedi mynd iddi.

Felly, os ydych chi yn y sefyllfa hon, ble gallwch chi fynd i gael help os ydych chi'n teimlo bod eich busnes yn dechrau mynd i drafferth?

Lle gwych i ddechrau yw "Rhaglen Barod am Fuddsoddiad" Llywodraeth Cymru a all ddarparu cymorth, gan gynnwys cyngor, cymorth ymarferol fel paratoi llif arian, rhagamcanion a chyflwyniadau i ddarparwyr cyllid. Mae tîm y Rhaglen yn cynnwys cyfrifwyr cymwys, arbenigwyr bancio, yn ogystal ag arbenigwyr yn y diwydiant bwyd sydd wedi arwain busnesau bwyd.

Dylai busnesau hefyd siarad â'u cyfrifwyr a'u banciau eu hunain, yn enwedig os oes angen iddynt drefnu gwyliau ad-dalu i helpu i gadw arian parod.

Yn ddiddorol, cyflwynais yn ddiweddar mewn cynhadledd yr **Institute for Turnaround (IFT)** a gwnaeth eu hamrywiaeth o wasanaethau a chysylltiadau argraff arnaf. Yr IFT yw'r sefydliad aelodaeth mwyaf blaenllaw yn y DU ar gyfer arbenigwyr yn y maes. Mae eu haelodau wedi'u hachredu i'r safonau uchaf ac ynghyd â sefydliadau partner corfforaethol, maent yn helpu busnesau sy'n tanberfformio i osgoi ansolfedd diangen.

Mae'r neges yn syml - peidiwch â'i gadael hi'n rhy hwyr cyn i chi ofyn am help os

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-y-cadeirydd-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yw'ch busnes yn ei chael hi'n anodd.

Ac yn olaf, ym mis Gorffennaf, rydym i gyd yn edrych ymlaen at Sioe Frenhinol Cymru wych arall. Gobeithio na fydd hi'n boeth iawn fel y llynedd! Er ei fod yn ddigwyddiad pleserus, mae hefyd yn gyfle gwych i gwrdd â chydweithwyr yn y diwydiant i drafod y cyfleoedd a'r heriau niferus sy'n bodoli. Bydd aelodau'r Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod yn y digwyddiad, felly dewch i ddweud wrthym beth yw eich barn a beth sydd ei angen arnoch i barhau i sbarduno twf ein diwydiant gwych yng Nghymru.

Ac i'r ffermwyr hynny sy'n darllen y cylchlythyr hwn – dymuniadau gorau am gynhaeaf llwyddiannus!

**Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-y-cadeirydd-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.